DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg,

# Practis Deintyddol Court Road

19 Ionawr 2016

Gellir darparu’r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o’r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn**: 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.hiw.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-6439-1
© Hawlfraint y Goron 2016

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2

2. Cyd-destun .......... 3

3. Crynodeb .......... 4

4. Canfyddiadau .......... 5

   Ansawdd Profiad y Claf .......... 5

   Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 8

   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 13

5. Y Camau Nesaf .......... 14

6. Methodoleg .......... 15

   Atodiad A .......... 17

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Court Road yn 4,Court Road, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1BN ar 19 Ionawr 2016.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd Practis Deintyddol Court Road yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau Deintyddol gyda rhybudd ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth - Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Court Road yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr.  Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Practis cymysg sy'n cynnig gwasanaethau deintyddol preifat a GIG yw Practis Deintyddol Court Road.

Mae tîm y practis yn cynnwys pedwar deintydd (gan gynnwys perchennog y practis), tair nyrs ddeintyddol, technegydd deintyddol a dau aelod o staff y dderbynfa (y mae un ohonynt hefyd yn rheolwr y practis).  Roedd nyrs dan hyfforddiant hefyd yn gweithio yn y practis ar adeg ein harolygiad.

## 3. Crynodeb

Mae Practis Deintyddol Court Road yn trin cleifion gydag urddas, parch a charedigrwydd.  Dywedodd cleifion a wnaeth sylwadau eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent wedi ei dderbyn gan dîm y practis.  Gwelsom fod y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon ac roedd sylwadau'r cleifion yn cadarnhau hyn.

Mae'r practis yn cynnig ffyrdd i gleifion gynnig adborth ar eu profiadau o ddefnyddio gwasanaethau'r practis.  Roedd polisi ysgrifenedig mewn grym ar gyfer delio â chwynion cleifion.  Roedd angen i hyn gynnwys gwybodaeth ychwanegol ar y sefydliadau hynny y gallai'r cleifion gysylltu â hwy i gael help a chyngor.

Mae gan y practis systemau ar waith sydd â'r nod o ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd yn ymddangos bod safle'r practis wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac roedd mesurau ar waith i storio a chael gwared ar wastraff a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod offer diffodd tân ar gael ac roedd hwn wedi cael ei wasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae gan y staff fynediad at offer dadebru ac roeddent wedi derbyn hyfforddiant ar ymdrin ag argyfwng claf (ymgwympiad).

Nodwyd gennym fod angen gwelliant er mwyn sicrhau bod y practis yn cydymffurfio'n llawn â chanllawiau cenedlaethol ar ddadheintio offerynnau deintyddol.  Gofynnwyd am sicrwydd ysgrifenedig ar unwaith gan berchennog y practis ar y mater hwn a chawsom ein sicrhau bod trefniadau addas ar waith i fynd i'r afael â'r gwelliannau angenrheidiol.

Gwelsom fod angen gwella rhai agweddau ar gadw cofnodion yng nghofnodion deintyddol y cleifion ac rydym wedi gofyn i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Roedd gan y practis systemau rheoli effeithiol ar waith.  Roedd llinellau cyfathrebu ac atebolrwydd clir wedi'u disgrifio a'u harddangos.  Dywedodd y staff wrthym fod uwch aelodau o staff y practis a'r tîm yn gyffredinol yn eu cefnogi a'u bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Mae Practis Deintydd Court Road yn trin cleifion gydag urddas, parch a charedigrwydd. Dywedodd cleifion a wnaeth sylwadau eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent wedi ei dderbyn. Gwelsom fod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon a chadarnhawyd hyn gan sylwadau cleifion.**

**Mae'r practis yn cynnig ffyrdd i gleifion gynnig adborth ar eu profiad o ddefnyddio gwasanaethau'r practis. Roedd polisi ysgrifenedig ar waith i ddelio â chwynion cleifion. Roedd angen i hyn gynnwys gwybodaeth ychwanegol ar y sefydliadau hynny y gallai'r cleifion gysylltu â hwy i gael help a chyngor.**

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn canfod safbwyntiau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Dychwelwyd cyfanswm o 22 o holiaduron wedi'u cwblhau.

> *'Mae'r staff bob amser yn gwrtais a chymwynasgar, mae'r feddygfa ei hun yn lân iawn.'*
>
> *'Gwasanaeth gwych, deintydd cyfeillgar.'*
>
> *'Byddai maes parcio yn ychwanegiad da.'*
>
> *'Gwasanaeth da ar draws y practis cyfan.'*
>
> *'Practis deintyddol effeithlon a chyfeillgar iawn.'*

<u>Gofal ag urddas</u>

Canfuwyd gennym fod pobl sy'n ymweld â'r practis yn cael eu trin gydag urddas a pharch. Fe'n hysbyswyd ganddynt eu bod yn derbyn gwybodaeth ddigonol am eu triniaeth ddeintyddol.

Roedd tîm y practis yn gyfeillgar ac fe'u gwelwyd eu bod yn foesgar a chwrtais tuag at gleifion. Cadarnhaodd y cleifion a wnaeth sylwadau bod tîm y practis yn rhoi croeso iddynt pan fyddant yn ymweld â'r practis. Rhoddodd rhai cleifion eu sylwadau eu hunain yn nodi bod y staff yn gwneud iddynt deimlo'n gartrefol iawn.

Mae'r practis yn darparu gwasanaethau deintyddol GIG a phreifat. Roedd gwybodaeth am gostau deintyddol GIG a phreifat wedi ei harddangos yn eglur. Mae hyn yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth ei gostio. Mae copïau o daflen wybodaeth i gleifion ar gael i gleifion fynd â hi gyda nhw.

Mae hyn yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth allweddol am y practis y gellid ei chadw i gyfeirio ati yn y dyfodol.

## Gofal amserol

Canfuwyd gennym fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon.

Dywedodd y mwyafrif o gleifion a wnaeth sylwadau nad oeddent wedi dioddef oedi sylweddol cyn cael eu gweld gan ddeintydd. Ar ddiwrnod yr arolygiad gwelsom gleifion yn cael eu gweld yn fuan ar ôl cyrraedd ar gyfer eu hapwyntiad. Disgrifiodd y staff broses o roi gwybodaeth i gleifion, os bydd eu deintydd yn rhedeg yn hwyr neu'n absennol yn annisgwyl, er mwyn i drefniadau eraill gael eu gwneud yn unol â dymuniadau'r claf.

Roedd gwybodaeth i gleifion ar sut i gael triniaeth ddeintyddol frys pan oedd y practis ar gael ar gael mewn nifer o wahanol ffyrdd. Cadarnhaodd y mwyafrif o gleifion a ddychwelodd holiaduron eu bod yn gwybod sut i gael gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau.

## Cadw'n Iach

Yn ddieithriad, dywedodd cleifion a ddychwelodd holiaduron wedi'u cwblhau eu bod yn credu eu bod wedi derbyn gwybodaeth ddigonol am eu triniaeth ddeintyddol. Atgyfnerthodd rhai o'r cleifion eu sylwadau a dweud bod y deintyddion wedi rhoi gwasanaeth defnyddiol ac addysgiadol iddynt.

## Gofal Unigol

Mae'r practis wedi gwneud ymdrechion i sicrhau bod ei wasanaethau ar gael i bawb. Mae'r practis yn rhannu gwybodaeth gyda chleifion ar sut i fynegi pryder (cwyn) ac roedd system ar waith i gleifion ddarparu adborth.

Mae gan y practis drefniadau i bobl ag anawsterau symud a'r rhai sy'n defnyddio cadeiriau olwyn gael mynediad at y practis. Roedd deintyddfa ar gael ar y llawr gwaelod a oedd yn addas i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Dywedwyd wrthym fod y deintyddion yn gweithio'n hyblyg er mwyn i'r cleifion hynny na allant ddefnyddio'r grisiau gael eu gweld yn y ddeintyddfa ar y llawr gwaelod.

Gwelsom fod bocs awgrymiadau wedi'i leoli yn yr ystafell aros fel y gall cleifion ddarparu, ar sail barhaus, awgrymiadau unigol ar sut y gellid gwella'r gwasanaeth. Fe wnaethom argymell bod y practis yn ffurfioli'r system sydd ar waith i ddangos bod tîm y practis wedi ystyried yr adborth a dderbyniwyd a'u bod wedi gweithredu arno fel y bo'n briodol.

Mae gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaeth ddeintyddol GIG a phreifat. Mae'r weithdrefn hon yn cael ei harddangos yn yr ystafell aros, ac mae'n bodloni gofynion y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â *Gweithio i Wella*, y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion am ofal a thriniaeth y GIG yng Nghymru, mae angen i'r weithdrefn gynnwys manylion cyswllt y bwrdd iechyd lleol a'r Cyngor Iechyd Cymuned lleol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod cleifion yn gwybod am eu hawl i gyfeirio pryder (cwyn) at y bwrdd iechyd o dan y trefniadau uchod a bod help a chyngor ar gael iddynt gan y CIC.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen i weithdrefn y practis ar gyfer delio â phryderon (cwynion) am driniaeth y GIG gynnwys manylion cyswllt y bwrdd iechyd a'r Cyngor Iechyd Cymuned lleol.***

Cadarnhaodd y mwyafrif o gleifion a ddychwelodd holiaduron AGIC wedi'u cwblhau eu bod yn gwybod i bwy y dylent wneud cwyn am y gwasanaethau deintyddol maent yn ei dderbyn.

Mae rheolwr y practis yn cynnal cofnod ysgrifenedig o'r holl bryderon (cwynion) a dderbyniwyd, ynghyd â'r canlyniad.  Roedd y rheolwr yn derbyn ein hawgrym i gynnwys mwy o fanylion er mwyn dangos sut yr aed i'r afael â phryderon (cwynion), yr amserlenni ar gyfer ymateb iddynt ac unrhyw beth a ddysgwyd, at ddibenion archwilio.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Mae gan y practis systemau ar waith sydd â'r nod o ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd yn ymddangos bod safle'r practis wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac roedd mesurau ar waith i storio a chael gwared ar wastraff a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod offer diffodd tân ar gael ac roedd hwn wedi cael ei wasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae gan y staff fynediad at offer dadebru ac roeddent wedi derbyn hyfforddiant ar ymdrin ag argyfwng claf (llewygu).**

**Nodwyd gennym fod angen gwelliant o ran sicrhau bod y practis yn cydymffurfio'n llwyr â'r canllawiau cenedlaethol ar ddadheintio offerynnau deintyddol. Gofynnwyd am sicrwydd ysgrifenedig ar unwaith gan berchennog y practis ar y mater hwn a chawsom sicrwydd bod trefniadau addas wedi'u gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r gwelliant angenrheidiol.**

**Roedd dogfennaeth a gwybodaeth ar gael i ddangos bod yr offer pelydr x yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel.**

**Nodwyd bod angen gwella rhai agweddau ar gadw cofnodion yng nghofnodion deintyddol cleifion, ac rydym wedi gofyn i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis fynd i'r afael â hyn.**

<u>Gofal Diogel</u>

Canfuwyd gennym fod gan y practis drefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles staff sy'n gweithio yn y practis a phobl sy'n ymweld. Roedd polisïau ysgrifenedig ar gael i roi arweiniad i'r staff gyda'r nod o ddarparu gofal diogel i gleifion.

Roedd adeilad y practis yn amlwg wedi'i gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan. Mae mesurau diogelwch ar waith i amddiffyn yr adeilad rhag mynediad heb awdurdod. Yn ystod taith o'r practis fe welsom fod pob ardal yn lân a thaclus heb unrhyw beryglon amlwg. Roedd offer diffodd tân wedi'i leoli mewn lleoliadau strategol o gwmpas y practis a gwelsom fod hwn wedi cael ei wasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer storio a throsglwyddo gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus a gynhyrchir gan y practis. Roedd gwahanwyr amalgam wedi'u gosod fel y gellid tynnu gronynnau amalgam (yn cynnwys mercwri) o lenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel.

Canfuwyd gennym fod trefniadau ar waith i ddiogelu pobl rhag heintiau cysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal. Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- roedd polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig i leihau croes-heintio ar gael i'r staff
- roedd offer diogelwch personol ar gael yn barod i staff ei ddefnyddio
- darperir cyfleusterau golchi a sychu dwylo neilltuedig
- ceir ystafell ddadheintio ar wahân a phroses y cytunwyd arni ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offerynnau deintyddol a ddefnyddir yn y practis
- roedd yr ystafelloedd yn amlwg yn lân ac wedi'u dodrefnu i hwyluso glanhau effeithiol.

Roedd yr offer glanhau a sterileiddio sy'n cael eu defnyddio yn amlwg mewn cyflwr da ac roedd gan offer aerglos[1] dystysgrif archwiliad diogelwch cyfredol yn cadarnhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Nodwyd bod angen gwelliannau i gydymffurfio'n llawn gyda Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1)[2]. Mae hyn yn ymwneud â recordio gwiriadau ar offer aerglos a storio rhai offer deintyddol.

Roedd gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal ar offer ac roedd coflyfrau wedi'u cynnal er mwyn arddangos y broses hon. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn cynnwys y lefel o fanylion sy'n cael ei hargymell yn nogfen ganllaw WHTM 01-05. Yn benodol, gwelsom fod angen cofnodi rhagor o fanylion er mwyn arddangos dilysiad o gylchoedd sterileiddio aerglos.

Mae'r offer deintyddol sy'n cael eu storio yn y deintyddfeydd yn ymddangos yn lân ac mewn cyflwr da. Roedd offer wedi'u pecynnu (h.y. gan ddefnyddio bagiau arbenigol wedi'u selio) ac offer heb eu pecynnu yn cael eu cadw mewn droriau. Roedd gan yr offer wedi'u pecynnu ddyddiad pecynnu a dyddiad mae angen eu defnyddio neu eu hailbrosesu erbyn yn unol â'r canllawiau a nodir yn y Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05). Pan oeddent yn y droriau, nid oedd offer heb eu pecynnu yn cael eu storio ar hambyrddau dan orchudd.

---

[1] Siambr pwysedd yw peiriant aerglos a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy orfodi ager dirlawn pwysedd uchel arnynt.

[2] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn cynnig canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Fe wnaethom hysbysu'r perchennog o'n canfyddiadau, a rhoddodd sicrwydd llafar y byddai camau cywirol yn cael eu cymryd. Yn unol â phroses AGIC, fe wnaethom ofyn am sicrwydd ysgrifenedig ar unwaith gan berchennog y practis ar y camau sy'n cael eu cymryd.

***Yr Hyn sydd Angen ei Wella (Cynllun Sicrwydd ar Unwaith)***

***Mae'n rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod y practis yn cydymffurfio â'r canllawiau yn nogfen ganllaw WHTM 01-05 (Diwygiad 1) o ran:***

- ***Cynnal cofnodion sy'n gysylltiedig â gwirio a dilysu offer wedi'u sterileiddio a ddefnyddir yn y practis.***
- ***Storio ac ailbrosesu offerynnau deintyddol heb eu pecynnu a ddefnyddir yn y practis.***

Darparodd perchennog y practis gynllun sicrwydd ar unwaith o fewn yr amserlen y cytunwyd arni. Rydym wedi ein sicrhau bod trefniadau addas wedi'u cyflwyno i fynd i'r afael â'r gwelliant angenrheidiol.

Roedd trefniadau ar waith i gleifion dderbyn y feddyginiaeth a'r driniaeth gywir mewn achos brys. Canfuwyd gennym fod offer dadebru a chyffuriau brys ar gael. Roedd gan staff fynediad at gyfres o siartiau llif sy'n disgrifio'r camau i'w dilyn ar ôl nodi argyfwng claf. Roedd y rhain wedi'u storio mewn waledi plastig, ynghyd â'r cyffuriau i'w defnyddio er mwyn hwyluso mynediad mewn argyfwng. Gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn dynodi bod hyfforddiant y staff mewn Adfywio Cardio-Pwlmonaidd (CPR) yn gyfredol.

Archwiliwyd y cyffuriau brys gennym a chanfuwyd bod y rhain o fewn eu dyddiadau terfyn. Roedd yr offer argyfwng mewn cyflwr da ac yn gweithio. Disgrifiwyd system a oedd yn gwirio'r cyffuriau argyfwng a'r offer dadebru yn rheolaidd. Fe wnaethom gynghori bod y practis yn adolygu'r trefniant hwn er mwyn iddynt gynnal cofnod ysgrifenedig i ddangos bod y gwiriadau yn cael eu cynnal yn unol â'r canllawiau a gyhoeddir gan y Cyngor Dadebru (DU)[3]. Cytunodd rheolwr y practis i wneud hyn ac roedd wedi dechrau cynnal cofnod cyn diwedd ein hymweliad arolygu.

Mae gan y practis weithdrefn ar waith i hybu a diogelu lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu mewn perygl. Roedd y cofnodion hyfforddiant i ni eu gweld yn

---

[3] Mae'r Cyngor Dadebru (DU) yn bodoli i hybu canllawiau gwyddonol, o safon uchel ar ddadebru, sy'n berthnasol i bawb, a helpu i arbed bywydau drwy addysg, hyfforddiant, ymchwil a chydweithredu.

dynodi bod staff wedi cwblhau hyfforddiant ar faterion diogelu. Fe gadarnhaodd y staff y buom yn siarad â hwy eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn codi unrhyw bryderon gwaith a allai fod ganddynt gydag uwch aelodau o staff y practis.

Daethom i'r casgliad bod gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr x) yn ddiogel. Mae hyn oherwydd bod yr holl ddogfennau a gwybodaeth ofynnol am ddefnyddio'r offer pelydr x yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol. Roedd y tystysgrifau hyfforddiant a welsom yn dangos bod hyfforddiant y staff mewn ymbelydredd ïoneiddio yn gyfredol ac yn cydymffurfio â'r canllawiau a gyflwynir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Gofal Effeithiol

Dangosodd trafodaethau gyda staff uwch y practis eu bod wedi ymrwymo i wneud ymdrechion i wella'n barhaus y gwasanaeth a ddarperir i gleifion sy'n ymweld â'r practis.

Ar adeg ein harolygiad, roedd gwaith yn mynd rhagddo i ddarparu deintyddfa newydd ar y llawr gwaelod. Cawsom wybod bod y practis wedi symud eiddo yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac roedd hyn wedi darparu cyfle i uwchraddio cyfleusterau'r practis. Gwelsom fod archwiliad mewnol wedi'i gynnal ar reoli heintiau a bod ansawdd y delweddau pelydr x wedi'i archwilio. Byddai'r rhain yn nodi meysydd i'w gwella pan fyddai angen.

Roedd systemau cofnodi papur yn cael eu defnyddio ac fe wnaethom adolygu sampl ar hap o gofnodion 12 o gleifion er mwyn asesu ansawdd y broses o gadw cofnodion. Roedd y sampl hon yn cynnwys cofnodion a gwblhawyd gan yr holl ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis ar hyn o bryd. Fe wnaethom ganfod bod ansawdd y broses o gadw cofnodion yn amrywio rhwng y deintyddion. Roedd yr holl gofnodion yn cynnwys manylion o'r asesiadau a'r triniaethau a ddarperir ond nodwyd bod angen gwelliannau yn gyffredinol. Nid oedd y cofnodion bob amser yn arddangos:

- hanesion meddygol cleifion wedi cael eu diweddaru yn ystod pob cwrs o driniaeth a dangos bod y deintydd yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a allai effeithio ar y dewisiadau triniaeth.
- hanes cymdeithasol (yn cynnwys defnydd o alcohol a thybaco) wedi eu nodi ac a oedd cyngor hybu iechyd wedi'i nodi neu ei gynnig
- archwiliadau peridontol sylfaenol wedi cael eu cynnal yn rheolaidd i fonitro a dod o hyd i glefyd deintgig.
- caniatâd parhaus cleifion i dderbyn y driniaeth

- y rheswm dros gymryd delweddau pelydr x a chanfyddiadau’r deintyddion ohonynt, yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2000

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae’n rhaid i’r deintyddion sy’n gweithio yn y practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddyn nhw yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.***

### *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Mae gan y practis systemau rheoli effeithiol ar waith. Cafodd llinellau cyfathrebu ac atebolrwydd clir eu disgrifio a'u harddangos. Fe'n hysbyswyd gan y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan staff uwch y practis a'r tîm yn gyffredinol a'u bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swyddi.**

Mae rheolwr practis yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd ac mae'n gweithio'n agos gyda pherchennog y practis.

Dynododd sgyrsiau gyda staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddi gan staff uwch a thîm y practis. Gallai'r staff ddisgrifio eu rolau a'u cyfrifoldebau unigol a gwelsom linellau adrodd ac atebolrwydd clir ar waith.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant a oedd yn dynodi bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi. Gwelsom fod y staff yn y practis wedi derbyn arfarniad o'u gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gydag amcanion wedi'u pennu ac anghenion hyfforddiant wedi'u nodi.

Fe'n hysbyswyd gan y staff i ni siarad â hwy bod y dulliau cyfathrebu ymhlith tîm y practis yn effeithiol a bod cyfarfodydd practis yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Gwelsom gofnodion ysgrifenedig o gyfarfodydd, a oedd yn dangos bod materion perthnasol yn cael eu trafod a bod camau gweithredu yn cael eu pennu.

Canfuwyd gennym fod y staff clinigol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer ymarfer ac roedd yswiriant indemniad ar waith. Roedd cofnodion ar gael a oedd yn arddangos bod staff wedi derbyn imiwneiddiad rhag Hepatitis B er mwyn diogelu hwy eu hunain a chleifion.

Mae deintyddion sy'n gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat ac roedd eu tystysgrifau cofrestru AGIC yn cael eu harddangos yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Roedd gan bob deintydd dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'u cyflwyno yn y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r rheoliadau uchod.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai’r cynllun gwella ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Court Road yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i’r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawniadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai’r practis roi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.


Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC a’i werthuso yn rhan o’r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd a ddarperir i gleifion.

**<u>Ffigur 1: Y Safonau Iechyd a Gofal</u>**

Ffigur 1




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[4] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011[5]. Pan fo'n briodol, rydym yn ystyried sut y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

---

[4] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made

[5] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, yn cynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan yn berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar gymhwysiad safonau yn y practis yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Court Road

## Dyddiad yr Arolygiad: 19 Ionawr 2016

| Rhif Tudalen | Yr Hyn Sydd Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 7 | Mae angen i weithdrefn y practis ar gyfer delio â phryderon (cwynion) am driniaeth GIG gynnwys manylion cyswllt y bwrdd iechyd a'r Cyngor Iechyd Cymuned lleol. | Safon 6.3 | Mae poster gwybodaeth i gleifion y practis wedi'i ddiweddaru i gynnwys y wybodaeth hon, fodd bynnag nid yw polisi'r practis wedi'i ddiweddaru. Gwneir hyn yn awr er mwyn sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael i staff yn adlewyrchu'r un wybodaeth sydd ar gael i gleifion. | Andrew Turpy | Chwefror 2016 |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 10 | Mae'n rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod y practis yn cydymffurfio â'r | Safon 2.4 | Cynhelir profion dilysu aerglos Amser/Stêm/Tymheredd ar gyfer pob cylch Aerglos SES 2010 a bydd y stribedi profi yn cael eu dyddio, eu | Andrew Turpy | Ar unwaith (gweithredwyd 20fed Ion 2016) |

| Rhif Tudalen | Yr Hyn Sydd Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | canllawiau yn nogfen ganllaw WHTM 01-05 (Diwygiad 1) o ran:<br><br>• Cynnal cofnodion sy'n gysylltiedig â gwirio a dilysu offer wedi'u sterileiddio a ddefnyddir yn y practis.<br><br>• Storio ac ailbrosesu offerynnau deintyddol heb eu pecynnu a ddefnyddir yn y practis.<br><br>(Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1): Pennod 2, Pennod 4 ac Atodiad 3) | | llofnodi a'u cadw yn y coflyfr fel tystiolaeth o'r profion.<br><br>Bydd profion Bowie/ Dick dyddiol a phrofion gwactod wythnosol o beiriant aerglos Melag yn parhau i gael eu cynnal a bydd y dystiolaeth berthnasol yn cael ei chofnodi a'i chadw.<br><br>Bydd cofnodion o gofnodwr data pob peiriant aerglos yn cael eu lawrlwytho a'u gwirio yn wythnosol, a bydd y data hwn yn cael ei ddilysu yn erbyn y data sydd wedi'i gofnodi yn y profion dyddiol. Bydd y weithdrefn hon hefyd yn cael ei chofnodi yn y coflyfr.<br><br>Bydd yr offerynnau hyn yn cael eu rhoi mewn bagiau ar ôl cael eu sterileiddio cyn cael eu trosglwyddo i'r ddeintyddfa i'w defnyddio.<br><br>Byddant yn cael eu storio mewn bagiau yn nroriau'r ddeintyddfa, a bydd unrhyw offerynnau nad ydynt wedi'u defnyddio ar ddiwedd pob sesiwn clinigol yn cael eu symud a'u | | |

| Rhif Tudalen | Yr Hyn Sydd Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | hail-sterileiddio. Bydd pecynnau newydd o offerynnau wedi'u sterileiddio yn cael eu defnyddio o'r newydd ar gyfer pob sesiwn clinigol.<br><br>Mae newidiadau i weithdrefnau profi a chofnodi peiriannau aerglos wedi'u cyflwyno fel uchod, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.<br><br>Mae newidiadau i'r gweithdrefnau trin a storio wedi'u cyflwyno fel uchod. | | |
| 12 | Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddyn nhw yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.<br><br>(Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol: Safon 4) | Safon 3.5 | Mae sylwadau'r tîm archwilio ar gadw cofnodion clinigol wedi'u trafod yn y practis a bydd y deintyddion unigol yn mynd i'r afael â hwy. | Andrew Turpy, Sarah Hamilton. Gareth Cooper, Judith Bater | |

| Rhif Tudalen | Yr Hyn Sydd Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| | Ni nodwyd bod angen unrhyw welliannau. | | | | |

**Enw (llythrennau bras): ....Andrew Turpy.........................................................**

**Teitl: ....Prif Ddeintydd......................................................................................**

**Dyddiad: .....23/ 02/ 2016...................................................................................**